Ein cyf: P&T/T1/CYM/02
Eich cyf:02

Swyddfa Bwcle
Ffordd Caer
Bwcle
Sir y Fflint
CH7 3AJ
Ebost: Andrew.Basford@cyfoethnaturiol.cymru
Ffôn: 03000 65 3846

Dydd Gwener 22 Gorffennaf 2022

Annwyl Mr Glyn Griffiths,

**Ynglŷn â: Rheoli perygl llifogydd ym Mhorthmadog, Tremadog a dalgylch Afon Glaslyn**

Ym mis Rhagfyr 2021, rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddiweddariad ysgrifenedig i grŵp cynghori Ardal Draenio Mewnol Dwyfor Meirionnydd ynglŷn â Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog. Ein bwriad oedd rhannu canlyniadau ein hastudiaeth barhaus o'r model llifogydd â'r gymuned drwy gynhyrchu cylchlythyr yn ystod Gwanwyn 2022 y cynnwys y camau nesaf ar gyfer y prosiect.

Roedd hyn wedi i mi fynychu'r grŵp cynghori ym mis Ebrill 2021 lle cefais gyfle i gyflwyno camau cychwynnol y prosiect a gwrando ar yr adborth a'r cwestiynau a godwyd. Ar yr un pryd, fe wnaethom ni rannu llythyrau yn y gymuned i ofyn am brofiadau o lifogydd yn yr ardal. Bydd yr adborth hwn yn allweddol gan y bydd yn ein helpu i ddeall rhagor am y broblem ac i ganfod ffyrdd cynaliadwy o reoli llifogydd yn y tymor hir gyda'n partneriaid.

Rydym ni wedi parhau i gasglu tystiolaeth a datblygu sylfaen gadarn ar gyfer y prosiect ac mae hyn yn golygu cymryd amser ychwanegol i wirio a dadansoddi'r model llifogydd ymhellach. Ymddiheurwn am yr oedi y mae hyn wedi'i achosi, ond rydym ni bellach yn disgwyl i ganlyniadau'r model llifogydd fod yn barod yn ystod yr Hydref, ac yna byddwn yn cyhoeddi'r cylchlythyr ac yn trefnu digwyddiadau galw heibio.

Er mwyn paratoi ar gyfer y gweithgareddau ymgysylltu sydd i ddod, byddwn yn parhau i ddiweddaru gwefan y prosiect y gellir cael mynediad iddi drwy'r ddolen hon https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/flood-scheme-projects/porthmadog-flood-risk-management-work?lang=cy

Hefyd, rydym yn annog aelodau o'r gymuned i gysylltu â'r cyfeiriad e-bost newydd ar gyfer y prosiect risgllifogydd.porthmadog@grasshopper-comms.co.uk sy'n cael ei fonitro gennyf fi.

Os bydd cyfle yn codi, byddwn yn falch o gael cyfle i roi diweddariad i grŵp cynghori Ardal Draenio Mewnol Dwyfor Meirionnydd ym mis Medi. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau gallwch gysylltu â mi yn uniongyrchol (Dysgwr Cymraeg) ar 03000 65 3846 neu fy nghydweithiwr Sharon Parry, Swyddog Cymorth y Tîm Prosiect (Siaradwr Cymraeg) ar 03000 65 5264.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Yn gywir,

**Andrew Basford**
Rheolwr Prosiect, Cyfoeth Naturiol Cymru